

**COFNODION CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWDYD YN NEUADD CYMUNEDOL,
DYFFRYN ARDUDWY AM 7.30 O'R GLOCH 05.07.16**

7.1 YMDDIHEURIADAU

Cyng. John Ceri Evans, John Ellis Williams, Sion Ifor Williams.

7.2 PRESENNOL

Cyng. Edward Griffiths (Cadeirydd), Emrys Jones (Is-Gadeirydd), Edward Williams, Catrin Edwards, Sian Edwards, Margretta Cartwright, Owen Gwilym Thomas, Mike Tregenza, Eryl Jones-Williams.

Croesawodd y Cadeirydd Ms Heidi Vaughan Williams, Cadeirydd Hamdden Harlech ac Ardudwy ynghyd a Mr. Chris Hulse, un o Gyfarwyddwyr y ganolfan a Mr. Iestyn Pritchard o Gyngor Gwynedd i'r cyfarfod i drafod dyfodol y pwll nofio. Eglurodd Ms Williams bod cyfarfod wedi ei gynnal ar yr 8ed o fis diwethaf gyda Aelodau o'r 6 Cyngor Cymuned a Thref yn dalgylch y pwll yn bresennol i drafod cynnig y precept er mwyn galluogi cadw y safle yn agored at y dyfodol. Hefyd dywedodd bod problemau ariannol wedi bod ers sawl blwyddyn bellach a nawr mae angen i'r Cyngorau Cymuned a Thref godi eu precept er mwyn galluogi cadw y safle yn agored neu os na fydd hyn yn digwydd bydd y safle yn cau Tachwedd 2016. Cafwyd wahanol ddogfennau gan Ms Williams yn dadansoddi y gwahanol ffigyrau a faint fyddai rhaid i'r Cyngorau ychwanegu at eu precept er mwyn i'w drosglwyddo i Hamdden Harlech ac Ardudwy. Cytunwyd i drafod y mater hwn ymhellach am bod yn item ar yr agenda.

7.3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd y Cadeirydd a theulu y diweddar Mr. Tudor Thomas.

7.4 COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mehefin 7ed fel rhai cywir.

7.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION

Item 6.10 (D) adroddodd y Clerc bod ddim ateb wedi ei dderbyn ynglyn ar pileri ar waelod Ffordd Gors y Gedol.

7.6 DATGAN DIDDORDEB

Nid oedd neb yn datgan diddordeb ar unrhyw fater.

7.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu y canlynol:- Mehefin 13eg 10-1 Cyngor Iechyd Cymunedol, Tremadog, 7-10 Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd, Tremadog, 15ed Mynediad De Eryri, Dolgellau, 17eg Ciriciwlwm Ysgol Dyffryn a cynllunio ymlaen, 20ed Trwyddedu Caernarfon, 22ain Deddf Iechyd a Llesiant, Prenteg, Porthmadog, 27ain 10-1 Pwyllgor Safonau, Caernarfon, 2-5 Fforwm Meirionnydd, Trawsfynydd, 28ain linc fidio ymchwiliad Ysbyty Alltwen, 29ain Llywodraethwyr Ardudwy, 30ain Cyngor Llawn Caernarfon. Yr angen i wneud y defnydd gorau o ysbytai cymunedol er mwyn arbed teithio yn bell eto wedi gael ei amlygu gan CIC. Mae y Ddeddf Llesiant newydd i'r GIC a Gwasanaethau Cymdeithasol i weithio yn agosach dal i fynd ymlaen. Dwi dal ddim yn gallu cael Gwynedd i dderbyn yr angen am gofrestru deublyg i helpu cleifion gyda dementia a'i teuluoedd i ddarparu help lleol heb yr angen i deithio ymhell. Mae cyfarfodydd wedi cymeryd lle ar raddfa lleol, ond ddim cynlluniau cadarnhaol i helpu cymunedau gwledig fel rhai ni. Mae amryw o gymorthfeydd meddygon yn nawr yn cael eu rhedeg gan GIC. Mae meddygfa Bermo a Harlech yn edrych fel bod ganddynt fwy o feddygon a nyrsys na amryw o feddygfeuydd eraill. Mae pryder am ehangu yr ardal o waith i nyrsys cymunedol. Mae amryw yn mynychu Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd ag yn gwneud yn dda yn cynrychioli eu helodau, ond beth bynnag mae mwy a mwy yn cael ei ddisgwyl o Lywodraethwr. Fe godais y pryderon am gau Bont y Bermo er mwy uwchraddio a trwsio ar defnydd o fysiau o Bermo i Fairbourne yn enwedig os oes damwain ar yr A496 a gorfod teithio trwy Trawsfynydd. Mae gyrru oddi ar ffordd gan 4x4's a scramblars yn cael ei archwilio oherwydd y difrod sydd yn cael ei wneud mewn ardaloedd fel Pont Ysgethin. 'Rwyf wedi gorffen fy nhymor 2 flynedd fel cadeirydd trwyddedu ond yn dal i gadeirio gwrandawiadau lleol a 'rwyf yn falch o gyhoeddi bod ein Clerc Annwen Hughes wedi cael ei hethol yn Is-Gadeirydd newydd. 'Roedd amryw wedi mynychu cynhadledd Deddf Gofal a Llesiant yn Prenteg. 'Rwyf yn bryderus bod

Gwynedd yn defnyddio y Ddeddf i dorri yn nol ac arbed arian nid wyf yn gallu gweld sut gall gwirfoddolwyr helpu a mwy a mwy yn cael ei roi ar ofalwyr teuluoedd. Ddim ond dau gwyn sydd yn cael ei archwilio yn y 12 mis diwethaf a nawr mae aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn gorfod aryllu cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned. Mae peidio darparu cofnodion saesneg a cyfieithu mewn pwyllgorau yn denu mwy a mwy o sylwadau gan rhai di gymraeg sydd yn hawlio cael gwybod beth sydd yn mynd ymlaen yn eu cymunedau. Mae staff Gwynedd yn gweithio yn galed i geisio denu swyddi i'r ardal trwy Parth Menter Eryri sydd yn cynnwys Llanbedr a Trawsfynydd. Mae lansiio lloerenau cyfathrebu a hyrwyddo dron yn cael ei gynnyddu yn Llanbedr yn ol Swyddogion Gwynedd. Mae presenoldeb mewn ysgolion yn gallu effeithio ar radd yr ysgol yn yr ardal er bod canlyniadau academiaidd da gan y disgyblion, bydd Llywodraeth Cymru yn is-raddio ysgol os yw y figyrau presenoldeb yn is nba 95%. 'Roedd y Cyngor Llawn Gwynedd yn ganolog o amgylch adroddiad blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol, amddiffyn plant, oedolion bregus a gofal a gefais argraffa dda gyda'r cwestiynau da a gafodd eu gofyn gan yr Aelodau. Torriadau mewn torri gwair, cau toiledau, lleihau mewn parcio a parcio anghyfreithlon a trafnidiaeth cyhoeddus gwael ydi'r pryderon lleol a bob un yn cael eu craffu gan y pwyllgor cymunedau. Gallwch gysylltu a mi ar 242758 neu 07796833767 neu ar e.joneswilliams@btinternet.com

7.8 CEISIADAU CYNLLUNIO

Codi estyniad ochr deulawr (bwriad diwygiedig i'r un gafodd ei gymeradwyo o dan ganiatad cynllunio NP5/58/256B dyddiedig 20/10/10) - 12 Glanwerydd, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/256C)

Cefnogi y cais hwn ond eisiau tynnu sylw bod y cyfeiriad yn anghywir a mae 12 Glan Rhos sydd ar y ffurflen cais cynllunio.

Adeiladu estyniad deulawr - Plas Bach, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/446A)

Cefnogi y cais hwn.

Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt

Amnewid garej sengl presennol gyda garej dwbl newydd - Y Waun, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/119C) - caniatáu
Codi estyniad unllawr - Bronant, Talybont (NP5/58/579) - caniatáu

7.9 MATERION YN CODI

A Cynllun Busnes

Adroddwyd bod £10,051.94 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd.

B Camerau CCTV

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams bod PCSO Dai Hughes yn barod i ddod i gyfarfod y pwyllgor i drafod y mater uchod..

C Neuadd Bentref

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr gan y Cyng. Sian Edwards yn datgan ei bod yn ymddiswyddo o fod yn aelod o bwyllgor yr uchod a diochwyd iddi am y gwaith oedd wedi ei wneud tra ar y pwyllgor. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn copi o gyfrifion y neuadd i fyny at 31ain o Fawrth 2016 a dosbarthwyd copi o rhain i bawb oedd yn bresennol. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn dau dyfanbris am "extractor fan" newydd i gaffi y neuadd a cytunwyd derbyn pris R. J. Electrics i wneud y gwaith hyn ag hefyd cytunodd yr Aelodau i'r Cyngor dalu am y gwaith ymal gael ei wneud. Datganwyd siom fawr bod y sawl oedd wedi gwneud y gwaith o drwsio y llawr wrth drws cefn y neuadd wedi gadael yr hen ddeunydd tu allan i'r drws er bod y Cyngor wedi talu swm sylweddol iddo am wneud y gwaith hyn. Cytunodd y Cyng. Mike Tregenza gasglu yr hen ddeunydd a'i waredu.

D Archwilio'r lloches bws, mynwentydd a parciau chwarae

Adroddodd y Cyng. Emrys Jones ei fod wedi gwneud yr archwiliad uchod ar ran y Cyngor ac adroddodd fel a ganlyn - bod y lloches bws yn Talybont yn iawn a bod y gwair o'i amgylch wedi cael ei dorri yn daclus iawn ar blodau yn cael gofal da, adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr. John Willetts yn cwyno am gyflwr y gwair ger y toiledau hyn a mor fler oedd yn cael ei dorri. Cytunwyd ymateb iddo bod y gwaith yn cael ei wneud yn daclus iawn.

Bod y lloches bws yn y pentref angen ei lanhau a cytunodd y Cyng. Owen Gwilym Thomas ddelio gyda'r mater hwn, roedd gardd Penybont yn daclus iawn ond bod angen mynd ar hen sedd oddi yno ac adroddodd y Cadeirydd bod sedd newydd wedi cael ei archebu 'roedd Parc Morlo yn iawn ar gwair wedi ei dorri yn daclus, 'roedd y ddau barc chwarae yn iawn ond bod angen torri eiddew a trimio coeden yn yr hen barc chwarae, 'roedd y fynwent gyhoeddus yn iawn ond bod y gwair braidd yn fler a bod y llwybrau angen eu glanhau ar gornel i'r dde o'r giat angen ei dacluso a cytunwyd gofyn i Mr. Gary Martayn wneud y gwaith hwn. 'Roedd mynwent Llanddwywe a mynwent Llanenddwyn yn iawn. Cytunodd y Cyng. Eryl Jones Williams wneud yr archwiliad y mis nesa.

E Gwefan y Cyngor

Adroddodd y Cyng. Mike Tregenza ei fod wedi cael pris gan gwmni Quick & Simple o un taliad o £400 a £100 y flwyddyn a bydd y cyfanswm yn dod i £500.00. Cytunodd pawb i dderbyn y pris hwn a gofynnwyd i'r Cyng. Tregenza i gysylltu gyda'r cwmni yn rhoi caniatad iddynt gychwyn ar y wefan.

F Anfon pigion o'r cofnodion i'r papurau

Adroddodd y Cyng. Margretta Cartwright bod rhai wedi gofyn iddi pam nad oedd y Cyngor yn anfon pigion o gofnodion eu cyfarfodydd i Llais Ardudwy a'r Cambrian News fel oedd rhai Cynghorau eraill yn ei wneud. Ar ol trafodaeth cytunwyd i ail ddechrau gwneud hyn.

G Cau banc HSBC Bermo

Datganwyd siom a phryder bod y banc uchod yn mynd i gau yn mis Medi. Cafwyd trafodaeth ar symund cyfrif y Cyngor i fanc arall neu i'r swyddfa bost ond nid oedd neb yn cefnogi y syniad hyn.

H Cyfarfod gyda Hamdden Harlech ac Ardudwy - 8.6.16

Trafodwyd y cyfarfod uchod ymhellach a cytunwyd pawb yn unfrydol i godi y precept er mwyn rhoi i Hamdden Harlech ac Ardudwy y swm oeddynt ei angen ond cytunwyd pawb nid oedd y Cyngor yn fodlon codi y precept yn uwch na'r hyn oedd yn gofyn os oedd Cyngor arall yn tynnu allan o'r fenter. Hefyd rhoddwyd yr hawl i'r rhai fydd yn mynychu y cyfarfod gyda'r uchod ar yr 11eg o Awst (os bydd yn cael ei gynnal) i siarad ar ran y Cyngor. Cytunwyd os byddai y cyfarfod yn cymeryd lle ar yr 11eg o Awst bod y Cyngor yn rhoi rhybudd i fyny yn yr hysbysfyrddau er mwyn i'r cyhoedd gael gwybod beth oedd yn digwydd.

7.10 GOHEBIAETH

A Ysgol Ardudwy

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn diolch i'r Cyngor am y cyfraniad ariannol o £200 tuag at y diffibiwlator maen't yn ei archebu.

B Cyngor Gwynedd - Adran Gorfodeth Stryd

Wedi cael holiadur gan yr uchod ynglyn a glendid stryd ag yn gofyn i'r Cyngor a fyddant yn fodlon ei gwblhau. Cytunwyd i'w gwblhau.

C Cyngor Gwynedd - Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Wedi cael llythyr gan yr uchod ynglyn ar toiledau cyhoeddus yn y pentref ag yn datgan yn dilyn ymgysylltu diweddar "Her Gwynedd" fod polisi'r Llywodraeth o leihau'n sylweddol wariant ar gyllideb Llywodraeth Leol yn golygu fod yr arian mae Cyngor Gwynedd yn ei dderbyn tuag at y gost o ddarparu gwasanaethau lleol yn cael ei thorri ag oherwydd hyn bod Cyngor Gwynedd yn gorfod gweithredu cyfres o 49 toriad i wasanaethau ag mae hyn yn cynnwys lleihau'r swm y maen't yn ei gael i wario ar y rhwydwaith o 74 toiled cyhoeddus yn y Sir. Hefyd maen't yn gofyn a fyddai y Cyngor hwn yn fodlon cytuno i gyfranu'n ariannol a mynd i mewn i bartneriaeth gyda hwy er mwyn gallu cadw toiledau cyhoeddus Gwynedd yn agored yn ystod 2017/18 ac wedyn ystyried cyfleoedd pellach i unai ymestyn y bartneriaeth i'r flwyddyn ddilynol neu datblygu cynlluniau i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am y ddarpariaeth toiledau

cyhoeddus yn y gymuned hon yn llwyr i'r Cyngor. Hefyd yn amgae y gost flynyddol byddai yn ofynnol i'r Cyngor hwn ei dalu i wireddu'r amcan hwn. Cytunwyd i fynd i bartneriaeth gyda Chyngor Gwynedd i gadw y toiled cyhoeddus yn Talybont yn agored ar gost blynyddol o £4,000 i'r Cyngor ond cytunwyd i beidio mynd i bartneriaeth gyda Chyngor Gwynedd i gadw y toiled cyhoeddus yn y pentre yn agored am ei fod ddim yn dod i fyny i'r gofynion ag hefyd am bod gan y cyhoedd yr hawl i ddefnyddio toiled y neuadd a bod y cyhoedd yn cael defnyddio y toiled sydd yn garej Smithies. Cytunwyd i roi y mater ar agenda mis Medi.

D Cyngor Gwynedd - Adran Prifffyrdd

Wedi cael llythyr gan yr uchod ynglyn a biniau halen ag yn datgan bod rhai Cynghorau wedi gofyn cwestiynau pellach ynglyn a cymeryd y biniau yma drosodd. Hefyd yn cadarnhau na'r gost am ail lenwi biniau halen (isafswm o 3) fydd £80 ond bod croeso i'r Cyngor ddefnyddio contractwr lleol gyda cymhwyster gweithio ar ffyrdd o dan Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd 1991 a byddai darparu halen yn unig yn gweithio allan rhwng £45-57 y bin ar Cyngor Cymuned fyddai yn gyfrifol am gynnal a chadw y biniau os byddant yn defnyddio contractwr lleol eu hunain. Hefyd yn gofyn am gadarnhad bod y Cyngor yn dymuno i Gyngor Gwynedd edrych ar ol a ail lenwi y biniau halen. Cytunwyd i gymeryd drosodd y cyfrifoldeb o edrych ar ol y biniau halen ein hunain.

E Cyngor Gwynedd - Adran Prifffyrdd

Wedi cael ateb gan yr uchod ynglyn a pryderon y Cyngor am groesffordd Llanddwywe ag yn datgan yr unig beth fyddai y Cyngor yn gallu ei wneud fyddai gosod cyfyngiadau parcio ar y ffordd ond byddai hyn yn drafferthus iawn i ddefnyddwyr yr Eglwys. Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod wedi cysylltu gyda'r adran hon a wedi datgan na ddim ond tynnu sylw Cyngor Gwynedd at y peryglon oedd bwriad y Cyngor hwn am bod un Aelod wedi dod ar mater i fyny a bod Aelod arall o'r Cyngor sydd yn byw lawr y ffordd hon wedi datgan bod ddim llawer o drafferthion yn yr ardal.

F Swyddfa Bost

Wedi cael ateb gan yr uchod ynglyn ar ffaith bod swyddfa post y pentre heb ail agor ar y dyddaid a benodwyd ganddynt ag yn datgan bod hyn wedi digwydd oherwydd trafferthion technegol gyda gosod/ail actifiannu y llinell ffon o fewn yr adeilad a oedd allan o'i rheolaeth hwy a bod hyn yn anfodol er mwyn i'r sustem gyfrifiadurol sydd yn cael ei ddefnyddio yn y gangen weithio ag felly nid oedd ganddynt ddim opsiwn arall ond oedi yr ail agor o'r swyddfa bost newydd nes bod hyn wedi cael ei gywiro.

G Mrs Rhian Davenport

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod wedi cael dau "tapestry" o'r wyddor a chysylltiad gyda Ardudwy oherwydd bod un wedi cael ei wneud gan Elizabeth Jones, Tyddyn Mawr pan yn 12 oed yn Dyffryn British School yn 1869 ar llall wedi cael ei wneud gan Elinor Ann Lloyd pan yn 14 oed yn 1870. Ag ei bod wedi cael rhain yn rhodd i godi arian i Ambiwylans Awyr Cymru ag yn meddwl y buasant yn edrych yn hardd yn cael eu arddangos yn y neuadd bentref yma. Hefyd yn datgan ei bod wedi bod a nhw yn cael eu prisio a bod gwerth y ddau hefo'i gilydd yn £350 ag yn gofyn a fyddai y Cyngor a diddordeb i archebu rhain er mwyn eu gosod yn y neuadd. Cytunwyd i'w roi ar agenda mis Medi.

7.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £13,873.06 yn y cyfrif rhedegol, £1,319.62 yng nghyfrif y cae chwarae, £7,539.08 yn y cyfrif wrth gefn a £33.00 yng nghyfrif y Cadeirydd.

Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Mrs Annwen Hughes - £147.00 (cyflog) + £238.58 costau = £385.58
Second Life Products Wales Ltd - £408.00 - 1 sedd gyhoeddus newydd

Cyllid a Thollad	- £110.20 - treth cyflog y Clerc
Gary Martayn	- £674.00 - torri gwair
E. Edwards a'i Gwmni	- £633.60 - trwshio ffens maes parcio y neuadd
R. J. Electrics	- £449.99 - "extractor fan" i gaffi y neuadd
Quick & Simple Web Design	- £500.00 - cynllunio gwefan i'r Cyngor (siec wedi canslo oherwydd enw anghywir)
Nigel Ferguson	- £500.00 - cynllunio gwefan i'r Cyngor

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf

Pritchard & Griffiths - £438.00 - claddu llwch y diweddar Ms Irene Richards
Pritchard & Griffiths - £1,280.00 - claddu y diweddar Doreen Joyce Chapman

Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Catrin Sorya Williams - £163.62 - cyfieithu

7.12 UNRHYW FATER ARALL

Holodd y Cyng. Mike Tregenza pam oedd y Cyngor ddim a diddordeb o gymeryd y maes parcio ger Traeth Bennar drosodd gan y Parc Cenedlaethol a datganwyd bod y Cyngor wedi bod mewn trafodaethau ynglyn a hyn gyda'r Parc yn barod a wedi penderfynnu peidio a'i gymeryd drosodd.

Gofynnwyd y Cyng. Margretta Cartwright a fyddai yn bosib i'r Cyngor hwn goffau 100 mlwyddiant Brwydyr y Somme a Choedwig Memetz trwy gynnal gwasanaeth a gosod torchen ar y Gofeb. Cytunodd pawb i hyn a cytunwyd archeb torchen o gyfrif y Cadeirydd.

Adroddodd y Cyng. Owen Gwilym Thomas bod Dyffryn Ardudwy wedi cael ei ddewis fel un o'r 3 lle mae Arloesi Gwynedd Wledig wedi ei ddewis i gydweithio ar Grwp Adfywio ag yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor gyda hyn. Cytunwyd i gefnogi y fenter hyn a bod pawb oedd yn gallu yn mynychu y cyfarfod cychwynol pan oedd yn cael ei gynnal.

Er gwybodaeth dywedodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod wedi derbyn gwobr am y gwaith mae yn ei wneud gyda'r Gwasanaeth Iechyd a'i longyfarchwyd am hyn.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD.....